# JONES, THOMAS (1769 - 1850), gweinidog y Bedyddwyr

**Enw:** Thomas Jones
**Dyddiad geni:** 1769
**Dyddiad marw:** 1850
**Priod:** Ann Jones (née Richards)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog y Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Thomas Jones

Rhydwilym a Glynceiriog; ganwyd yn Llangollen ac yn eglwys enwog Glynceiriog y cafodd ei fagwraeth grefyddol. Hanoedd o du ei dad o deulu y Ddôl Hir, Glynceiriog. Ordeiniwyd ef a'i gymydog John Edwards yn gydweinidogion ar eglwys y Glyn, 2 Gorffennaf 1794. Erbyn 1796 yr oedd y pynciau Sandemanaidd yn corddi pobl y Glyn, ac ymrannodd yr eglwys, un adran ohoni dan arweiniad Thomas Jones yn aros gyda'r Hen Fedyddwyr, ac adran arall yng ngofal John Edwards yn ymffurfio yn un o eglwysi cyfundeb J. R. Jones. Buasai Thomas Jones a John Edwards yn cydofalu am eglwys Fedyddiedig Dyffryn Clwyd er 1795, ac yn 1797 ymestynnodd rhwyg y Glyn i eglwys y Dyffryn. Thomas Jones oedd arweinydd ehofnaf Bedyddwyr y Gogledd yn erbyn daliadau J. R. Jones, a bu ei safiad yn dyngedfennol i'w enwad yn y Gogledd. Megis yn ei fro ei hun, ac yn y Cefnbychan, gweithiodd yn ddygn yn Rhuthyn (cafwyd t  cwrdd yn 1801) ac yn ffiniau'r Dyffryn. Priododd Ann Richards, Mathry, yn 1807, a'i ordeinio yn weinidog Rhydwilym, 14 Gorffennaf 1808. Yma, am ddwy genhedlaeth ymron, efengylodd ac adeiladodd eglwys. Nid g  r yr hwyliau mohono ef, ond pregethwr esboniadol, meddyliwr praff, efengylaidd. Yr oedd yn cyfrif mewn cynhadledd ac yn boblogaidd yn y cymanfaoedd. G  r gwastad, difrif, argyhoeddiadol, yn hyfforddi, ceryddu, esbonio. Bu farw 15 Hydref 1850 a'i gladdu yn Rhydwilym.

## Awdur

**John Thomas Jones**

## Ffynonellau


*Cofiant y Parch Thomas Jones, Rhydwilym* (Llangollen 1854), gan E. Evans ac E. Williams (Llangollen, 1854)

*Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru* iii. 455-65

John Absalom a Llwyd Williams, *Rhamant Rhydwilym* (Llandysul 1939), 1939, 48-9


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734481


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu